***Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013, Paragraff 88. (See end of Document for details)*

# ATODLEN 4

## MÂN DDIWYGIADAU A DIWYGIADAU CANLYNIADOL

### *Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009*

88 Ar ôl adran 27 (ffioedd) mewnosoder—

**"27A Pŵer Gweinidogion Cymru i ragnodi graddfa ffioedd**

(1) Caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, ragnodi graddfa neu raddfeydd ffioedd i gael effaith yn lle graddfa neu raddfeydd a ragnodir gan Swyddfa Archwilio Cymru o dan adran 27(1),

(2) Mae graddfa ffioedd a ragnodir o dan is-adran (1) yn caeleffaith am y cyfnod a bennir mewn perthynas â hi yn y rheoliadau.

(3) Mae is-adran (4) yn gymwys—

(a) os oes graddfa ffioedd yn cael ei rhagnodi o dan is-adran (1) yn lle graddfa a ragnodwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru, a

(b) os mai'r raddfa a ragnodwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru fyddai'r raddfa briodol, fel arall, at ddibenion adran 27(3) a (4).

(4) Mae'r cyfeiriadau at y raddfa briodol yn adran 27(3) a (4) i'w darllen fel cyfeiriadau at y raddfa a ragnodwyd o dan is-adran (1).

(5) Cyn gwneud rheoliadau o dan is-adran (1) rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r canlynol—

(a) Swyddfa Archwilio Cymru,

(b) unrhyw gymdeithasau cyrff llywodraeth leol yng Nghymru yr ymddengys i Weinidogion Cymru eu bod a wnelont â'r peth, ac

(c) y personau eraill hynny y maent yn gweld yn dda i ymgynghori â hwy.

(6) Mae rheoliadau a wneir o dan yr adran hon yn ddarostyngedig i'w diddymu yn unol â phenderfyniad Cynulliad Cenedlaethol Cymru.".

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** Atod. 4 para. 88 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 35(2)**

**I2** Atod. 4 para. 88 mewn grym ar 1.4.2014 gan O.S. 2013/1466, **ergl. 3(1)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013, Paragraff 88.